

Partneriaeth Talysarn & Nantlle



Bwletin Ward Talysarn

Ionawr - Mawrth 2008

GRŴP THEATR TALYSARN

Cynhyrchiad o Eira Wyn oedd Pantomeim Grŵp Theatr Talysarn eleni. Cafwyd 4 perfformiad arbennig gan y cas a oedd yn lleol i gyd, a da oedd gweld traws doriad o bobl lleol, gan gynnwys pobl ifanc, yn cymryd rhan a mwynhau. Tystiolaeth bod angen mwy o hyn ac edrychwn ymlaen am eich cynhyrchiad nesaf.

Unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yng nghynhyrchiad nesaf Grŵp Theatr i wneud ymholiad gyda Brian a Barbara Brown.



CYSTADLEUAETH

Fel rhan o ymgyrch glanhau a chadw ein cymuned yn daclus mae Grŵp Blodeuwedd mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth yn cynnal cystadleuaeth i blant a phobl ifanc gynllunio poster atal llygredd. Cysylltwch â Tom Coleman am fwy o wybodaeth ar 01286 882354.

GARDD AR DIR YR YSGOL

Ffermwyr Ifanc, Blodeuwedd a chyfeillion yr ysgol wedi bod yn brysur iawn yn cynllunio ac adeiladu gardd ar dir ysgol Talysarn.

Gardd i'r plant dyfu llysiau a ffrwythau i'w gwerthu yn y Farchnad leol, gyda Ffermwyr Ifanc yn cael defnydd o beiriannau o'r ffermydd, a busnesau lleol yn cyfranu. Mae'r prosiect yn datblygu'n dda.

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnanant@btopenworld.com



communities first cymunedau yn gyntaf



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

CRUISERS

Da yw gweld ein pobl ifanc yn cymryd rhan a gwneud rhywbeth i atal eu anghenion. Mae criw o bobl ifanc dan arweiniad Grŵp Cruisers Talysarn wedi bod yn brysur yn clirio a glanhau o gwmpas y parc sglefrio. Maent hefyd wedi cynllunio a phaentio graffiti creadigol ar rai o'r offer.



SEINDORF ARIAN DYFFRYN NANTLLE

Cynhaliwyd 'Master Classes' gan y Band dros gyfnod o benwythnos fis Ionawr. Roedd hyn yn gyfle arbennig i bob oedran o'r Seindorf gael blasu a chael profiad amhrisiadwy.

SIOP SIARAD



"Word of mouth" yw'r ffordd orau i gael pethau i ddigwydd ac mae hyn yn wir i ddweud am y Siop Siarad sydd wedi ail agor pob nos lau yn Nhalsarn, ac yn ddiweddar, yn Nantlle ar nos Fawrth.



Mae'r Siop Siarad yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddod at ei gilydd i drafod a chael hwyl wrth feddwl am ffyrdd i wella eu cyfleuon. Un gweithgaredd a drefnwyd gan bobl ifanc dros gyfnod gwyliau'r Pasg oedd dau ddiwrnod o weithgareddau awyr agored.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

GLODDFA GLAI

Mae Cyngor Gwynedd wedi cael cefnogaeth ariannol gan Gwmni Tir a Môr i uwchraddio llwybr o amgylch Gloddfa Glai a gosod offer mewn manau priodol. Bydd y gwaith yn cychwyn yn fuan yn y gwanwyn.

DYDDIADAU CYFARFOD Y BARTNERIAETH 2008

12.05.08	Llys Llywelyn, Nantlle
02.06.08	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
07.07.08	Llys Llywelyn, Nantlle
01.09.08	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
06.10.08	Llys Llywelyn, Nantlle
03.11.08	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
01.12.08	Llys Llywelyn, Nantlle

BLWCH SYNIADAU

Os oes gennych chi syniadau yr hoffech i'r Bartneriaeth eu hystyried, rhowch nhw yn y blwch yma a'i ddanfon at Dafydd Williams yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn.

Enw:

Cyfeiriad:

Syniadau:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

**AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn**

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaeth@talysarnant@btopenworld.com